

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Mawrth 2020



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6322**
E-bost: Amy.Clifton@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: SeneddYmchwil.blog

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ymchwil y Senedd

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Mawrth 2020

Awduron:
Amy Clifton



Contents

| | |
|---|----------|
| Cyflwyniad | 1 |
| Cefndir y Bil | 2 |
| Prif elfennau'r Bil | 3 |
| Dyletswydd ansawdd | 3 |
| Dyletswydd gonestrwydd | 4 |
| Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 4 |
| Penodi Is-gadeiryddion yn Ymddiriedolaethau'r GIG | 5 |
| Goblygiadau ariannol | 6 |
| Yr ymateb i'r Bil | 7 |
| Pwyllgorau'r Cynulliad | 8 |
| Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2 | 9 |

Cyflwyniad

Cyflwynwyd y ***Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)*** ar 17 Mehefin 2019, gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a wnaeth ***ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Mehefin 2019***.

Mae'r Bil yn cynnig newidiadau a fydd yn:

- Rhoi lle canolog i ystyriaethau ansawdd yn y GIG yng Nghymru;
- Cryfhau llais dinasyddion ar draws y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gan sefydlu corff newydd, sef Corff Llais y Dinesydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (a fydd yn disodli Cyngorau Iechyd Cymuned);
- Gosod dyletswydd gonestrwydd ar sefydliadau'r GIG ar lefel sefydliadol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o'u lle; a
- Chryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG, drwy gyflwyno rôl Is-gadeirydd ffurfiol ym mhob Ymddiriedolaeth.

Trafododd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon egwyddorion cyffredinol y Bil, casglodd dystiolaeth rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019 a ***chyhoeddodd ei adroddiad Cyfnod 1*** ar 15 Tachwedd 2019. Trafododd y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bil hefyd gan gyflwyno adroddiad arno ar ***15 Tachwedd 2019***.

Cefndir y Bil

Rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2015, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch y cynigion yn y **Papur Gwyrdd, 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd'**. Nod y papur hwn oedd ceisio barn am faterion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaethau iechyd, trefniadau llywodraethu a swyddogaethau'r gwasanaethau hynny. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **grynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyrdd ym mis Chwefror 2016**.

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn: 'Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol, ansawdd a llywodraethiant ym maes iechyd a gofal yng Nghymru'**.

Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys amrywiaeth eang o gynigion arfaethedig gan gynnwys:

- Mesurau i hyrwyddo trefniadau cryfach o ran llywodraethu ac arweinyddiaeth;
- Dyletswyddau i hyrwyddo newid diwylliannol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol (y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd);
- Prosesau cyffredin yn sail i wasanaethau iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (fel safonau cyffredin ac ymchwiliadau ar y cyd i gwynion);
- 'Cryfhau llais dinasyddion' (gan ddisodli model presennol y Cynghorau Iechyd Cymuned), a;
- Gwasanaeth arolygu a rheoleiddio sydd 'wedi'i ddiogelu at y dyfodol.'

Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad** am y rhaglen ddeddfwriaethol, gan ymrwymo i gyflwyno Bil Ansawdd y GIG 'yn ystod y flwyddyn nesaf'. Canolbwyntiodd ar y pedwar maes a nodwyd yn y Bil (cânt eu trafod isod), a chyflwynwyd y rhain ym mis Gorffennaf 2019.

Prif elfennau'r Bil

Mae'r Bil yn cynnwys pum Rhan, gan gynnwys **Trosolwg o'r Ddeddf yn Rhan 1**.

Mae **Rhan 2** yn ailddiffinio'r ddyletswydd ansawdd bresennol ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â swyddogaethau iechyd) arfer eu swyddogaethau **er mwyn sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu'n gwella**.

Mae **Rhan 3** yn cyflwyno **dyletswydd gonestrwydd ar bob corff yn y GIG ar lefel sefydliadol**.

Mae **Rhan 4** yn sefydlu **Corff Llais y Dinesydd annibynnol newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol** (yn lle'r Cynghorau Iechyd Cymuned).

Mae **Rhan 5** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru benodi **Is-gadeirydd ar Fyrdau Ymddiriedolaethau'r GIG**, ac mae'n cynnwys darpariaethau cyffredinol eraill, gan gynnwys diwygiadau canlyniadol i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth a darpariaeth ynghylch pryd a sut y daw'r Bil i rym.

Dyletswydd ansawdd

Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswydd eang newydd i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG arfer eu swyddogaethau (mewn perthynas ag iechyd) 'gyda'r bwriad o wella ansawdd gwasanaethau iechyd' (gan ddisodli'r ddyletswydd gyffredinol bresennol).

Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG i gyd gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar wahân yn rhoi manylion y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd, a chan asesu i ba raddau y mae'r gwasanaethau wedi gwella. Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o adroddiad Llywodraeth Cymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Bil yn nodi bod "ansawdd" yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd;
- Diogelwch gwasanaethau iechyd;
- Profiad unigolion y darperir gwasanaethau iechyd iddynt.

Dyletswydd gonestrwydd

Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswydd gonestrwydd newydd ar gyrff y GIG ar lefel sefydliadol. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn dod yn gymwys os yw'n ymddangos i gyrff y GIG bod yr amodau a ganlyn yn cael eu bodloni:

- Mae defnyddiwr gwasanaeth wedi dioddef canlyniad andwyol (niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy na'n fân niwed); ac
- Roedd y gofal iechyd a gafodd y defnyddiwr yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

Yna, mae'r Bil yn nodi manylion "y weithdrefn gonestrwydd" y mae'n rhaid ei dilyn (adran 4 (2)). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro y bydd "y darpariaethau'n rhoi dyletswydd ar gyrff GIG ar lefel sefydliadol, ac nid ar aelodau unigol o staff gofal iechyd".

Mae'r Bil hefyd yn rhoi dyletswyddau ar ddarparwyr gofal sylfaenol i baratoi adroddiad blynyddol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol. Rhaid i holl gyrff y GIG baratoi adroddiadau blynyddol ynghylch a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn gymwys ac, os felly, rhaid rhoi'r manylion, a nodir camau a gymerwyd rhag i'r un sefyllfa godi eto.

Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae adrannau 12 i 21 o'r Bil yn sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru. Bydd y corff cenedlaethol newydd yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yng nghyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn diddymu'r Cynghorau Iechyd Cymuned presennol sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn ar hyn o bryd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd.

Bydd swyddogaethau'r corff newydd yn cynnwys: ceisio barn y cyhoedd am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; rhoi cymorth a gwasanaethau eirioli i unigolion sydd am wneud cwyn; a chyflwyno sylwadau i awdurdodau lleol a chyrrff y GIG ar unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn berthnasol yng nghyd-destun gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol neu gorff y GIG ystyried y sylwadau hyn).

Bydd y corff newydd, yn wahanol i'r Cynghorau Iechyd Cymuned, yn cynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni fydd ganddo'r pŵer mynediad ac arolygu sydd gan y Cynghorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd, na dyletswyddau i graffu ar newidiadau yn y gwasanaethau.

Penodi Is-gadeiryddion yn Ymddiriedolaethau'r GIG

Mae adran 22 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer penodi Is-gadeiryddion ar Fyrddau Cyfarwyddwyr Ymddiriedolaethau'r GIG.

Nid yw'r trefniadau cyfansoddiadol a'r trefniadau ar gyfer pennu aelodaeth yr Ymddiriedolaethau a'r Byrddau Iechyd Lleol yn gyson ar hyn o bryd. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, gellir penodi Is-gadeiryddion i Fyrddau Iechyd Lleol pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n briodol. Fodd bynnag, nid oes pŵer cyfatebol gan Weinidogion Cymru i benodi Is-gadeirydd i Fyrddau Ymddiriedolaethau'r GIG, ac mae'r Bil yn mynd i'r afael â hynny.

Goblygiadau ariannol

Mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol**, yn nodi bod cost net y Bil, at ei gilydd, yn dod o fewn yr amrediad o £11 - £11.5 miliwn. Mae'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn gysylltiedig â'r gost o sefydlu'r Corff Llais Dinasyddion newydd (£6.1 miliwn). Bydd cost ychwanegol o £3.7 miliwn yn gysylltiedig â'r ddyletswydd gonestrwydd.

Caiff y costau hyn eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru (£6.3 miliwn) a chyrrff y GIG (rhwng £4.8 miliwn a £5.2 miliwn). Ar wahân i gost swyddi'r Is-gadeiryddion yn Ymddiriedolaethau'r GIG (sef rhwng £164,000 a £630,000) a'r costau cyfreithiol ychwanegol a fydd yn codi o'r ddyletswydd gonestrwydd (£21,000), mae holl gostau eraill cyrrff y GIG yn cael eu disgrifio yn y Memorandwm Esboniadol fel 'costau cyfle', sy'n awgrymu y cânt eu llyncu ganddynt hwy.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu bod disgwyl i'r Bil arwain at fuddion amrywiol, fel gwella ansawdd gwasanaethau, rhoi llais cryfach i ddinasyddion a lleihau nifer y cwynion am wasanaethau, o bosibl. Fodd bynnag, mae'n nodi nad oes modd mesur y buddion hyn "gan eu bod yn amrywio cryn dipyn, neu gan fod y data sydd ar gael yn brin".

Yr ymateb i'r Bil

Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, yn gefogol i amcanion y Bil, ar y cyfan; yn enwedig y camau hynny sy'n ymwneud â gwella ansawdd a gonestrwydd, caniatáu i Ymddiriedolaethau'r GIG benodi Is-gadeiryddion, a chreu Corff Llais y Dinesydd newydd a fydd yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y dylid cryfhau'r dyletswyddau sy'n ymwneud ag ansawdd a gonestrwydd yn y Bil (ac awgrymwyd nifer o ffyrdd o wneud hynny, gan gynnwys defnyddio sancsiynau). Mynegwyd pryderon hefyd am rai agweddau ar y Gorff Llais y Dinesydd. Roedd nifer o randdeiliaid yn teimlo'n gryf y dylid cymryd camau i sicrhau y bydd gan y Corff newydd gynrychiolaeth leol ledled Cymru, a digon o bwerau a 'dannedd' (gan gynnwys hawliau mynediad er mwyn cynnal ymweliadau dirybudd a hawl i gael ymateb gan gyrff cyhoeddus).

Dyma'r prif themâu a gododd yn y dystiolaeth:

- Nid yw'r darpariaethau o ran y ddyletswydd ansawdd yn ddigon clir, ac roedd nifer yn gofyn beth fydd yn cael ei fesur, a sut y bwriedir monitro a yw cyrrff yn cydymffurfio, o ystyried y prinder sancsiynau yn y Bil;
- Bydd ansawdd yr hyfforddiant a roddir i staff a'r diffiniadau a ddatblygir ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd yn hanfodol i lwyddiant y ddyletswydd hon (gyda llawer yn datgan na all deddfwriaeth, ar ei ben ei hun, newid diwylliant y GIG). Roedd llawer hefyd yn teimlo bod angen cosbi cyrrff os na fyddant yn cydymffurfio â'r ddyletswydd;
- Nid yw'n eglur sut y gall y dyletswyddau fod yn gydnaws â gofal cymdeithasol. Roedd rhai'n amau a yw'n rhesymegol i'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd fod yn gymwys i'r gwasanaeth iechyd yn unig o ystyried bod y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn integreiddio fwyfwy;
- Rhaid rhoi digon o adnoddau i Gorff Llais y Dinesydd; rhaid iddo fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru a bod â phresenoldeb lleol/rhanbarthol ar hyd a lled Cymru; rhaid iddo fod â phŵer mynediad a hawl i gynnal ymweliadau dirybudd; a hawl i gael ymateb i sylwadau.

Pwyllgorau'r Cynulliad

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn argymhell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gwneud 19 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, yn galw'n bennaf am welliannau i'r Bil i gryfhau'r darpariaethau, yn unol â'r dystiolaeth a ddaeth i law.

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn gwneud nifer o argymhellion i ddiwygio darpariaethau'r Bil mewn perthynas â Chorff Llais y Dinesydd. Er enghraifft, mae'n argymhell mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru (yn hytrach na Llywodraeth Cymru) a ddylai benodi aelodau Corff Llais y Dinesydd. Mae hefyd yn awgrymu y dylai'r corff fod â hawl mynediad amodol i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, a hynny er mwyn siarad â defnyddwyr y gwasanaethau a chynnal archwiliadau cymesur a rhesymol o'r gofal a gânt. Mae'r Pwyllgor yn rhesymu y gellid cynnwys amodau neu gyfyngiadau penodol ar ddefnyddio'r pŵer hwn mewn rheoliadau neu ganllawiau statudol a fydd yn cyd-fynd â'r Ddeddf. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell bod angen i'r sefydliad dan sylw ymateb yn ffurfiol i unrhyw sylwadau gan Gorff Llais y Dinesydd.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gwneud naw o argymhellion, gan gynnwys argymhelliad i Lywodraeth Cymru ymgymryd â rhagor o waith i ddadansoddi ac amcangyfrif buddion y Bil, sef y prif ffactorau sy'n gyfrifol am roi'r ddeddfwriaeth ar waith, ac argymhelliad iddi baratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried y costau ar gyfer trefnu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd, ac yn ymgymryd â rhagor o waith i roi mwy o fanylion am y costau amrywiol, gan gynnwys y costau cyfreithiol.

Mae'r Pwyllgor MCD yn gwneud tri argymhelliad, gan gynnwys argymhelliad i'r Gweinidog esbonio, yn ystod y ddadl yng Nghyfnod 1, pam nad oes diffiniad o'r ddyletswydd gonestrwydd ar wyneb y Bil ac esbonio hefyd ymhle y gall dinasyddion ddod o hyd i wybodaeth am ei hystyr. Mae hefyd yn argymhell y dylai'r Gweinidog esbonio'n glir ac yn fanwl sut y mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn adran 26 o'r Bil (y pŵer i wneud darpariaeth drosiannol ac ati) Mae'r Pwyllgor MCD yn pryderu ynghylch maint y pwerau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon, ac mae'n argymhell gwelliant i newid geiriad adran 26.

Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2

Trafododd y Pwyllgor Iechyd y Bil yng Nghyfnod 2 ar 23 Ionawr 2020.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru 18 o welliannau. Roedd y rhain yn cynnwys gwelliant i gyflwyno Cod Ymarfer i Gorff Llais y Dinesydd ynghylch mynediad i eiddo, a gwelliannau i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol mewn perthynas â'r ddyletswydd ansawdd y darperir ar ei chyfer yn y Bil.

Cyflwynwyd 67 o welliannau gan y gwrthbleidiau. Roedd y rhain yn ymwneud ag argymhellion Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd â'r nod o gryfhau'r darpariaethau ar wyneb y Bil, gan gynnwys darpariaethau dyletswydd ansawdd, ac annibyniaeth a phwerau Corff Llais y Dinesydd.

Dim ond tri gwelliant a dderbyniwyd. Cyflwynwyd y rhain yn enw'r Gweinidog ac roeddent yn rhai technegol eu natur:

- newid mân i'r geiriad yn Adran 2;
- dileu'r gair 'hwylus' a rhoi 'priodol' yn ei le yn Adran 26 (yn ymwneud ag argymhelliad gan y Pwyllgor MCD); a
- newid Atodlen 1 i sicrhau nad effeithir ar ddilysrwydd unrhyw achosion neu weithredoedd Corff Llais y Dinesydd oherwydd materion aelodaeth.

Felly, i raddau helaeth, mae'r Bil yn aros yn ddigyfnewid ar ôl Cyfnod 2. Fodd bynnag, cytunodd y Gweinidog i gwrdd ag Aelodau'r gwrthbleidiau i drafod meysydd lle gallent weithio gyda'i gilydd ar welliannau yng Nghyfnod 3, gan gynnwys cryfhau canllawiau ynghylch y ddyletswydd ansawdd a sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd yn hygyrch a bod ganddo bresenoldeb lleol.